YSGOL GYMRAEG PARC Y TYWYN
'Nid da lle gellir gwell'

05/11/2020

# Gwybodaeth am dargedau / cyrhaeddiad eich plentyn

Annwyl Rieni,

Fel y mae'r rhan fwyaf ohonoch yn ymwybodol, tua'r adeg hon o'r flwyddyn rydym yn cynnal ein nosweithiau targed ar gyfer rhieni. Yn ystod y cyfarfodydd yma, mae'r athro dosbarth yn trafod sut mae'ch plentyn wedi ymgartrefu yn ei d/ddosbarth newydd ac yn rhannu gyda chi rai targedau y bydd eich plentyn yn gweithio arnynt yn ystod y flwyddyn. Yn anffodus, o dan yr hinsawdd sydd ohoni, ni allwn agor ein drysau a gwahodd rhieni i mewn i gyflawni'r nosweithiau hyn. Serch hynny, mae cynnal ac adeiladu perthynas gadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol yn bwysig iawn i ni a chredwn yn gryf fod y cysylltiad rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y plant yn cyrraedd eu llawn potensial. Eleni, byddwn felly yn rhannu cyrhaeddiad eich plentyn a'i d/thargedau gyda chi trwy adroddiad cryno ysgrifenedig. Ein gobaith yw y byddwch yn gallu cefnogi datblygiad eich plentyn gartref trwy atgyfnerthu'r targedau a osodwyd.

O fewn adroddiad targed eich plentyn bydd crynodeb o'r canlynol:

- Sylwadau cyffredinol (Bl 1 i 6)
- Parodrwydd eich plentyn i ddysgu h.y presenoldeb, ymddygiad, ymdrech (Bl 1 i 6)
- Cynnydd a thargedau academaidd.

Bydd y tablau yma yn adroddiad eich plentyn. Bydd athrawon yn defnyddio eu barn i egluro cyrhaeddiad ac ymdrech eich plentyn.

Meithrin a Derbyn

| CYFATHREBU / *COMMUNICATION* | Cynnydd / *Progress* | Nodiadau / *Notes* |
|---|---|---|
| Yn siarad yn glir / *Speaks clearly* | ★★★★★ | |
| Yn mynegi cwestiynau uniongyrchol / *Expresses direct questions* | ★★★★★ | |
| Yn defnyddio geiriau newydd wrth eu dysgu / *Uses new words upon learning them* | ★★★★★ | |
| Yn deall ymagweddau at waith / *Understands approaches to work* | ★★★★★ | |

Blynyddoedd 1 i 6

| CYMRAEG / *WELSH* | Cyrhaeddiad / *Attainment* | | Ymdrech / *Effort* |
|---|---|---|---|
| Llafar / *Oracy* | ★★★★★ | | ★★★ |
| Darllen / *Reading* | ★★★ | | ★★ |
| Ysgrifennu / *Writing* | ★★★★ | | ★★★★ |
| Sillafu, Atalnodi, Gramadeg / *Spelling, Punctuation, Grammar* | ★★★★ | | ★★★★ |
| Cyflwyniad / Presentation | ★★ | | ★★★ |
| Sylwadau / *Comments* : | | | |
| Targedau / *Targets* : | | | |

Mae'r tabl hwn yn esbonio ystyr y graddau / sêr:

**Allwedd i'r symbolau Cyrhaeddiad**

| **Sêr** | **Cyrhaeddiad** |
|---|---|
| ★ | Yn is na'r safon ddisgwyliedig |
| ★★ | Gweithio tuag at y safon ddisgwyliedig |
| ★★★ | Gweithio ar y safon ddisgwyliedig |
| ★★★★ | Gweithio uwchlaw'r safon ddisgwyliedig |
| ★★★★★ | Gweithio tu hwnt i'r safon disgwyliedig |

**Allwedd i'r symbolau ymdrech**

| **Sêr** | **Ymdrech** |
|---|---|
| ★ | Achos pryder |
| ★★ | Lle i wella |
| ★★★ | Da |
| ★★★★ | Da iawn |
| ★★★★★ | Rhagorol |

Yn dilyn y cyfnod clo, nawr yn fwy nag erioed, mae presenoldeb rheolaidd yn allweddol os yw plentyn am fanteisio i'r eithaf ar eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'n ddyletswydd arnom i'ch hysbysu o bresenoldeb eich plentyn ac felly rydym wedi cyfeirio iddo yn yr adroddiad cryno. Cofiwch y bydd absenoldeb yn arwain at bresenoldeb yn disgyn i gategori is yr adeg hon o'r flwyddyn gan ystyried yr amser byr yr ydym wedi bod yn ôl yn yr ysgol. Rydym yn cydnabod bod rhai disgyblion wedi bod yn hunan ynysu am wahanol resymau yn ystod yr hanner tymor diwethaf ac o ganlyniad bydd eu presenoldeb yn y categorïau is. Os yw hyn yn berthnasol i chi, peidiwch â dychryn - mae'r absenoldebau yn ddilys ac wedi'u awdurdodi yn ein cofnodion monitro. Ni ddylech, dan unrhyw amgylchiadau, anfon eich plentyn i'r ysgol:

*os yw'n teimlo'n sâl, gydag unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu

*mae wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf neu

*os yw'n byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu os ydych am drafod unrhyw beth pellach gyda'r athro dosbarth, yna cysylltwch â'r ysgol dros y ffôn neu e-bostiwch yr athro dosbarth yn uniongyrchol a fydd yn ymateb â chi pan yn gyfleus.

Diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus,

*C Davies*
Pennaeth

Hawliau'r Plant :
Erthygl 29 - eich hawl i fod y gorau y gallwch chi fod

Pennaeth : C Davies
Heol Y Bardd, Porth Tywyn, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn/Tel : (01554) 832101 Ebost/ E-mail : admin@parcytywyn.ysgolccc.org.uk

05/11/2020

# Information regarding your child's targets / attainment

Dear Parents,

As most of you are aware, around this time of year we hold our initial parents targets evenings. During these meetings with the class teacher, we are able to discuss how your child has settled in to their new class and share with you some targets that your child will be working on during the year. Unfortunately, under the current climate, we are unable to open our doors and invite parents in to undertake these evenings. Nevertheless, maintaining and building a positive relationship between home and school is very important to us and we strongly believe that the link between the school and home is vital in ensuring that the children reach their full potential. This year, we will therefore be sharing your child's progress and their targets with you via a written summary report. It is our hope that you will be able to support your child's development at home by reinforcing the targets that have been set.

Within your child's target report will be a summary of the following :

- General comments (Years 1 to 6)
- Your child's preparation for learning i.e attendance, behavior, effort. (Years 1 to 6)
- Academic progress and targets. (Nursery to Yr 6)

Tables like these will be in your child's report. Teachers will use their judgment to demonstrate how your child is attaining and their effort.

Nursery and Reception :

| CYFATHREBU / *COMMUNICATION* | Cynnydd / *Progress* | Nodiadau / *Notes* |
|---|---|---|
| Yn siarad yn glir / *Speaks clearly* | ★★★★★ | |
| Yn mynegi cwestiynau uniongyrchol / *Expresses direct questions* | ★★★★★ | |
| Yn defnyddio geiriau newydd wrth eu dysgu / *Uses new words upon learning them* | ★★★★★ | |
| Yn deall ymagweddau at waith / *Understands approaches to work* | ★★★★★ | |

Years 1 to 6 :

| CYMRAEG / WELSH | Cyrhaeddiad / *Attainment* | | Ymdrech / *Effort* |
|---|---|---|---|
| Llafar / *Oracy* | ★★★★★ | | ★★★ |
| Darllen / *Reading* | ★★★ | | ★★ |
| Ysgrifennu / *Writing* | ★★★★ | | ★★★★ |
| Sillafu, Atalnodi, Gramadeg / *Spelling, Punctuation, Grammar* | ★★★★ | | ★★★★ |
| Cyflwyniad / Presentation | ★★ | | ★★★ |
| Sylwadau / *Comments* : | | | |
| Targedau / *Targets* : | | | |

This table explains what the grades/stars mean :

**Key to Attainment symbols :**

| Stars | Attainment |
|---|---|
| ★ | Below expected standard |
| ★★ | Working towards the expected standard |
| ★★★ | Working at the expected standard |
| ★★★★ | Working above expected standard |
| ★★★★★ | Working beyond the expected standard |

**Key to Effort symbols :**

| Stars | Effort |
|---|---|
| ★ | Cause for concern |
| ★★ | Could improve |
| ★★★ | Good |
| ★★★★ | Very good |
| ★★★★★ | Excellent |

Having had to close the school for a considerable period, now more than ever, regular attendance and punctuality are important if children are to take advantage of the learning opportunities offered by the school. We have a duty to inform you of your child's attendance and therefore we have included a reference in the summary report. Please bare in mind that absenteeism will result in attendance falling into a lower category at this time of year considering the short time we have been back in school. We acknowledge that some pupils have been self isolating for various reasons during the last half term and subsequently their attendance will be in the lower categories. If this is relevant to you, please do not be alarmed - these absenteeism's are authorised and valid reasons for absence and have been noted in our monitoring records. Under NO circumstances should you send your child to school if :

- they feel unwell and have any of the three identified COVID-19 symptoms (a new continuous cough, a high temperature or loss of taste or smell) or
- if they have tested positive to COVID-19 in the past 14 days or
- if they live in a household with someone who has symptoms of COVID-19 or has tested positive to COVID-19 in the past 14 days.

Should you have any concerns or wish to discuss anything further with the class teacher, then please contact the school via telephone or email the class teacher directly who will get back to you at a convenient time.

Thank you for you ongoing support and cooperation,

***C Davies***
Headteacher

**Rights of the Child :**
Article 29—your right to become the best that you can be

Pennaeth : C Davies
Heol Y Bardd, Porth Tywyn, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn/Tel : (01554) 832101 Ebost/ E-mail : admin@parcytywyn.ysgolccc.org.uk